eiriolaeth advocacy
Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# Cylchlythyr Eiriolaeth

## Diolch a hwyl fawr oddi wrth GTAP

Ers mis Ebrill 2016 mae'r Rhaglen Edau Euraidd (GTAP), a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi bod yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid ledled Cymru i gefnogi comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i feithrin gallu'r sector eiriolaeth a chodi ymwybyddiaeth o eiriolaeth.

Erbyn hyn mae'r cyllid ar gyfer y rhaglen wedi dod i ben a bydd GTAP, fel y cyfeirir ato'n annwyl, yn cau'n swyddogol ar yr 31ain o Fawrth 2020.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi ein gwaith, sydd wedi bod yn agored i'r syniadau a'r arbenigedd o fewn tîm GTAP, sydd wedi rhoi amser o'u dyddiau prysur i weithio gyda ni ar ddatblygu nifer enfawr o gyhoeddiadau, adnoddau, strategaethau, fideos, cronfeydd data, taflenni, ac i'r rheini sydd wedi rhoi cyngor ac arweiniad i ni ynglŷn â'r ffordd ymlaen. I'r rheini sydd wedi mynychu cyfarfodydd, digwyddiadau, ymgynghoriadau, rhwydweithiau, a Chynhadledd Eiriolaeth Cymru, diolch i chi. Heb eich cydweithrediad chi, ni allem fod wedi cyflawni'r hyn a wnaethom.

Rydym wedi wynebu llawer o anawsterau yn ystod ein gwaith, a gyda'n gilydd rydym wedi dod o hyd i ffyrdd arloesol o oresgyn yr anawsterau hynny a symud pethau yn eu blaen fel bod yr eiriolaeth yn cael ei chydnabod yn haeddiannol fel gwasanaeth pwysig sydd ar gael i bobl sydd ei angen.

Diolch unwaith eto i bawb a fu'n gweithio gyda ni, gan obeithio y bydd ein llwybrau'n croesi ac y byddwn yn gweithio gyda llawer ohonoch eto wrth i ni barhau i weithio i gynyddu argaeledd ac ymwybyddiaeth o eiriolaeth yng Nghymru.

Mae'r holl adnoddau a gyhoeddwyd gennym ar gael ar wefan Age Cymru a byddant yn dal i fod yno hyd yn oed ar ôl i GTAP ddod i ben.

Age Cymru
[Tudalen gwefan Eiriolaeth Edau Euraidd]

Os ydych yn dymuno cysylltu â'r tîm, ebostiwch

goldenthreadavocacy@agecymru.org.uk
Gyda dymuniadau gorau oddi wrth

dîm GTAP.

Louise, Paul, Marc a Sue

## Cyflwyno'r Prosiect GOBAITH newydd

Bydd Age Cymru yn parhau i gyflwyno gwaith yn ymwneud ag eiriolaeth er y bydd yn wahanol i waith GTAP. Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod wedi llwyddo, ynghyd â'n partneriaid yn Age Connects ac Age Cymru, i sicrhau cyllid i ddarparu prosiect tair blynedd arall a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Prosiect **HOPE**

**H**elping **O**thers **P**articipate and **E**ngage

will be starting in April 2020 and more information will be available about this in the coming months.

## *Adnoddau Age Cymru*

Cliciwch ar y dolenni isod i weld:

**Arweinyddion Asesu Poblogaeth**

**Mapio Gwasanaethau Eiriolaeth yng Nghymru**

**Ar gael cyn bo hir**

Llyfryn Adnoddau yng Nghymru IPA
Unigolyn Priodol

## *Rhwydweithiau Eiriolaeth*

Datblygwyd ystod o rwydweithiau darparwyr eiriolaeth rhanbarthol i gyd-fynd â'r rhwydweithiau rhanbarthol presennol a'r rhwydwaith cenedlaethol fel rhan o'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP). Mae'r rhwydweithiau yn gyfle i wasanaethau sy'n darparu eiriolaeth ar hyn o bryd, a'r rheini a hoffai wneud hynny yn y dyfodol, gael dealltwriaeth well o'r sefyllfa yn y rhanbarth, cyfleoedd comisiynu posibl yn y dyfodol a chael lle i rwydweithio a rhannu gwybodaeth a syniadau.

**Rhwydwaith Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro** 2pm—4pm 20.3.2020 Swyddfa Promo Cymru, Caerdydd

**Rhwydwaith Rhanbarthol Gwent,** 2pm—4pm 1.4.2020 Swyddfa Disabillity Can Do, Pontllanfraith

**Rhwydwaith Rhanbarthol Gogledd Cymru,** 12pm— 2pm 8.4.2020 Swyddfa Cymdeithas Alzheimer's, Mochdre

**Rhwydwaith Rhanbarthol 3 Sir yng Ngorllewin Cymru,** 10am—1pm 21.4.2020 Swyddfa PPF, Aberdaugleddau

**Rhwydwaith Rhanbarthol CwmTaf** Morgannwg, 10am—12pm—22.4.2020 Swyddfa Mental Health Matters, Pen-y-bont ar Ogwr

**Rhwydwaith Rhanbarthol Powys,** 10am— 12.30pm 26.5.2020 Swyddfa PAVO, Llandrindod

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r rhwydweithiau eiriolaeth, cysylltwch â Marc Forster ar 07932 989656 neu marc.forster@agecymru.org.uk

**Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Oedolion,**10am—3pm 17.6.2020 Maesmawr Hall, Caersws

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r rhwydweithiau eiriolaeth, cysylltwch â Marc Forster ar 07932 989656 neu marc.forster@agecymru.org.uk

**Mapio Gwasanaethau Eiriolaeth yng Nghymru**

Mae'r ystod o ddarparwyr a gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru wedi cael ei mapio, ei choladu ac ar gael i'r cyhoedd ar we-dudalennau Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd gwefan Age Cymru a thrwy'r ddolen yn y cylchlythyr hwn i adran Adnoddau Age Cymru. Fe'u casglwyd gan dîm GTAP gyda chefnogaeth y darparwyr eiriolaeth sy'n mynychu'r cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth amrywiol ledled Cymru, a'u cymathu â'r wybodaeth o arolwg Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 7. Bydd y wybodaeth yn cael ei diweddaru'n rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwydwaith gan ddefnyddio'r templed a ddatblygwyd ar y cyd â'r Gymdeithas Alzheimer's.

### Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 7

Trwy'r Rhaglen Edau Euraidd (GTAP), mae Age Cymru wedi cwblhau Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 7 yn ddiweddar, sef y 7fed adroddiad ar ddarpariaeth eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gyda phwyslais penodol ar bobl hŷn. Dros y 14 blynedd diwethaf, mae Age Cymru wedi bod yn adolygu argaeledd gwasanaethau, materion yn ymwneud â chyllid a chynaliadwyedd, ansawdd gwasanaeth a hyfforddiant eiriolwyr, eiriolaeth a'i rôl mewn diogelu, argaeledd o ran iaith, a gwybodaeth a dealltwriaeth o newidiadau deddfwriaethol mewn eiriolaeth. Mae Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 7 yn cyflwyno'r canfyddiadau o'n harolwg diweddaraf. Mae'n edrych ar y canfyddiadau yng ngoleuni'r newid o gwblhau'r prosiectau cyllid grantiau mawrion i gwblhau'r rownd gyntaf o wasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol comisiynedig a weithredwyd o dan y gofyniad eiriolaeth newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 7 yn rhoi cipolwg bras o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru.

**Crynodeb o'r canfyddiadau ers Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 6 yn 2018**

Mae gostyngiad wedi parhau yn y nifer o wasanaethau eiriolaeth (o 13 i 12) sy'n benodol ar gyfer pobl hŷn.

Bu cynnydd o 85% mewn gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth i grŵp cleientiaid ehangach. Gwelwyd cynnydd o 41 i 76 o wasanaethau.

Mae yna lai o eiriolwyr yn darparu eiriolaeth yn benodol i bobl hŷn (o 37 i 31).

Mae yna 107 o eiriolwyr cyflogedig amser llawn yn gweithio ledled Cymru. Mae'r ffigur hwn wedi dyblu.

Mae yna 79 o eiriolwyr cyflogedig rhan-amser, sydd yn gynnydd o 25%.

Mae yna 140 o eiriolwyr gwirfoddol yn gweithio mewn amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru. Mae hyn bron deirgwaith y ffigur yn Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 6.

Cyfanswm nifer y bobl hŷn a gefnogwyd ar draws yr holl wasanaethau dros y 12 mis diwethaf oedd 8153, cynnydd o bron i 2700 o Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 6.

Cefnogwyd 523 yn llai o bobl hŷn gan wasanaethau eiriolaeth a ariennir yn benodol ar gyfer pobl hŷn nag yn 2016. Mae hyn yn ostyngiad o 31%.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu cynnydd o 62% yng nghyfanswm y nifer o bobl a gefnogwyd ar draws yr holl wasanaethau yng Nghymru, i 6909.

Dim ond mewn 15 o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru y mae gwasanaethau a ariennir yn benodol ar gyfer pobl hŷn yn parhau.

Mae gwasanaethau i grŵp cleientiaid ehangach yn parhau i gwmpasu pob awdurdod lleol.

Adeg cynnal yr arolwg, nid oedd dwy ardal awdurdod lleol yng Nghymru wedi comisiynu eu gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Nifer o wasanaethau a phobl a gefnogir

| | **Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 5 2016** | **Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 6 2018** | **Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 7 2020** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymatebwyr | 22 | 21 | 33 |
| Nifer o wasanaethau a ariennir yn benodol ar gyfer pobl hŷn<br><br>Nifer o sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn | 19<br><br>13 | 13<br><br>7 | 12<br><br>6 |



Parhad...

| | Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 5 2016 | Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 6 2018 | Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 7 2020 |
|---|---|---|---|
| Nifer o wasanaethau eiriolaeth eraill a ariennir lle mae pobl hŷn yn rhan o'r grŵp cleientiaid<br><br>Nifer o sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn | 44<br><br>15 | 41<br><br>18 | 76<br><br>30 |
| Cyfanswm y nifer o bobl a gefnogir | Anhysbys | 10402 | 16909 |
| Cyfanswm y nifer o bobl hŷn a gefnogir | 6412 | 5466 | 8153 |
| Nifer o ardaloedd awdurdod lleol gyda gwasanaethau a ariennir ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach | 22 | 22 | 22 |
| Nifer o ardaloedd awdurdod lleol gyda gwasanaethau a ariennir ar gyfer pobl hŷn | 17 | 15 | 15 |

(Noder y gallai un darparwr fod â mwy nag un gwasanaeth eiriolaeth a bydd gan rai gwasanaethau sy'n benodol ar gyfer pobl hŷn yn ogystal â gwasanaethau ar gyfer grŵp cleientiaid ehangach)

### Staff a gwirfoddolwyr eiriolaeth

| | Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 5 2016 | | Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 6 2018 | | Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 7 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasan-aethau pobl hŷn | Pob math o wasan-aeth | Gwasan-aethau pobl hŷn | Pob math o wasan-aeth | Gwasan-aethau pobl hŷn | Pob math o wasan-aeth |
| Amser llawn | 20 | 87 | 10 | 44 | 8 | 99 |
| Rhan-amser | 23 | 43 | 12 | 51 | 10 | 69 |
| Gwirfoddol | 30 | 36 | 15 | 38 | 13 | 127 |

Mae'n ymddangos bod y nifer gyffredinol o eiriolwyr, pobl a gefnogir, a'r nifer o wasanaethau a ariennir i ddarparu eiriolaeth ledled Cymru i gyd wedi cynyddu ers adroddiad yr arolwg diwethaf yn 2018.

Manylwyd ar y dadansoddiad o'r ymatebion i'r arolwg gan gyfweliadau dilynol gydag ymatebwyr, ynghyd â thrafodaethau mewn cyfarfodydd rhwydwaith eiriolaeth ledled Cymru. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu y gellir priodoli'r cynnydd yn bennaf i well ymwybyddiaeth o lawer o'r gwasanaethau eiriolaeth sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chan gynnydd sylweddol yn y nifer o wasanaethau newydd. Mae cynnydd yn lefel yr ymgysylltiad gan ddarparwyr eiriolaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn ymarferiadau fel arolwg Mae Eiriolaeth yn Cyfrif yn rhoi darlun ehangach o wasanaethau eiriolaeth i oedolion yng Nghymru.

Erbyn hyn, mae yna fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o nifer, ansawdd, ystod ac amrywiaeth yr eiriolaeth sy'n bodoli ledled Cymru ymhlith darparwyr eiriolaeth, comisiynwyr awdurdodau lleol a hefyd gan Lywodraeth Cymru.

Cam pwysig yn y dyfodol fydd ymestyn y ddealltwriaeth ehangach hon i ddefnyddwyr gwasanaeth posibl, gwasanaethau cyngor a gwybodaeth yn ogystal ag i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda buddiolwyr posibl gwasanaethau eiriolaeth.



Parhad...

Mae angen mwy o hyfforddiant a gwybodaeth ar weithwyr proffesiynol i gynyddu eu hymwybyddiaeth o eiriolaeth yn ogystal â hawliau pobl i'r gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

At ei gilydd, mae gan reolwyr awdurdodau lleol well dealltwriaeth erbyn hyn o'r gwasanaethau eiriolaeth syn gweithredu yn eu hardal, yn ogystal â'u cyfrifoldebau o ran comisiynu gwasanaethau eiriolaeth.

Mae hyn yn golygu bod y prif faes o dwf newydd ers Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 6 wedi bod ymhlith y nifer o wasanaethau IPA a gomisiynwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Y Ddeddf), sydd bellach wedi cynyddu o bedair i 20 ardal awdurdod lleol adeg cynnal yr arolwg.

Yr hyn sy'n dal i beri pryder penodol i Age Cymru yw'r gostyngiad parhaus yn y nifer o ddarparwyr eiriolaeth arbenigol ac eiriolwyr ar gyfer pobl hŷn. Mae colli darparwr arbenigol ychwanegol ers 2018 yn golygu bod gostyngiad pellach yn yr arbenigedd a'r ffocws arbenigol ar gyfer cefnogi pobl hŷn trwy wasanaethau eiriolaeth sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal ac eiriolaeth yn y gymuned. Mae pobl hŷn yn dibynnu fwyfwy ar gael gafael ar eiriolaeth statudol lefel uwch.

Yng ngoleuni'r gofynion newydd a roddir ar awdurdodau lleol, rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau eiriolaeth yn parhau i dyfu ac felly mae argaeledd a chynaliadwyedd gwasanaethau yn flaenoriaeth i bawb dan sylw.

Mae cyfweliadau gyda darparwyr eiriolaeth a sylwadau a wnaed yn ystod yr arolwg yn awgrymu bod achosion yn mynd yn fwyfwy cymhleth a hirwyntog ac y bydd hyn hefyd yn cael effaith ar gynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad llawn, sy'n cynnwys dadansoddiad pellach, ar gael ar we-dudalennau GTAP gwefan Age Cymru.

## *Diwygiadau i Ran 10 o'r Cod Ymarfer (Eiriolaeth)*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Ran 10 y Cod Ymarfer (Eiriolaeth) ("y Cod"). Mae'r erthygl hon yn amlinellu'n gryno y newidiadau allweddol o ran eiriolaeth oedolion, ond nid yw'n ymdrin â'r newidiadau sylweddol i'r adran am eiriolaeth plant a phobl ifanc.

Mae'r Cod newydd, a ddosbarthwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"), yn dirymu'r fersiwn wreiddiol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016. Fe'i diwygiwyd gan Grŵp Technegol oedd yn cynnwys sefydliadau trydydd sector a swyddogion Llywodraeth Cymru. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r diwygiadau yn rhai mân neu gosmetig, ac nid yw'r Cod newydd yn dangos unrhyw newid cyfeiriad sylweddol.

Mae teitlau a rhifau'r penodau yn aros yr un fath i raddau helaeth, ac eithrio 20- 23 sy'n ymdrin ag eiriolaeth plant a phobl ifanc. Mae rhifau'r paragraffau hefyd yn aros yr un fath hyd at 50, ac ar ôl hynny maent i gyd yn newid o'r gwreiddiol. Mae yna rai adrannau newydd hefyd, gan gynnwys dau Atodiad newydd.

Un o'r newidiadau pwysicaf yw'r diffiniad o eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Erbyn hyn mae'r adran allweddol ym Mhennod 8 yn darllen:

> Mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn cynnwys eiriolwr proffesiynol, hyfforddedig yn gweithio mewn partneriaeth un-i-un gydag unigolyn i sicrhau bod eu safbwyntiau yn cael eu cyfleu'n gywir a'u hawliau yn cael eu diogelu. Gallai hyn fod ar gyfer un mater neu nifer o faterion.
>
> Mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn benodol ar gyfer cefnogi unigolyn o ran eu hanghenion cymorth a/neu ofal. Cyfeirir at eiriolwyr sy'n ymgymryd â'r math hwn o eiriolaeth fel Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol (IPA). Ceir gwybodaeth bellach am rôl yr IPA a rôl yr awdurdod lleol wrth eu cefnogi yn Atodiad 1.



Parhad...

Dylid nodi, o dan ddeddfwriaeth arall fel Deddf Galluedd Meddyliol 2005, fod yna ofynion eiriolaeth annibynnol statudol h.y. Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a elwir yn IMCA. Gweler Pennod 19.

Tra bod y paragraff cyntaf yn rhoi disgrifiad cyffredinol o bob math o eiriolaeth broffesiynol annibynnol, pa faterion bynnag yr ymdrinnir â hwy, mae'r ail baragraff yn ei gwneud yn eglur bod eiriolaeth broffesiynol annibynnol o dan y Ddeddf yn ymwneud yn benodol ag anghenion cymorth a/neu ofal unigolion. Mae'r disgrifiad diwygiedig o rôl yr eiriolwr proffesiynol annibynnol a amlinellir yn Atodiad 1 yn ymwneud yn benodol â'r math statudol hwn o eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Noder, trwy gydol y Cod diwygiedig, pan fo Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (IPA) yn ymddangos mewn priflythrennau, mae'n cyfeirio'n benodol at *rôl* rhywun sydd wedi ei hyfforddi a'i gyflogi i ddarparu *gwasanaeth* eiriolaeth broffesiynol annibynnol o dan y Ddeddf (h.y. pan fydd mewn priflythrennau mae'n cyfeirio at y rôl, pan nad yw mewn priflythrennau mae'n cyfeirio at y gwasanaeth).

Mae Atodiad diwygiedig 1 (5) yn nodi bod rôl yr eiriolwr proffesiynol annibynnol yn cynnwys 'Cynorthwyo unigolyn i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau i weithwyr proffesiynol, gan alluogi'r unigolyn i gyfranogi'n llawn yn y broses o wneud penderfyniadau lle bynnag y bo modd". Nodir hyn mewn mannau eraill hefyd (e.e. 29, 31, 68, 76), a cheir y diffiniadau safonol ar gyfer OPAAL a Action for Advocacy yn 27. Mae Pennod 9 bellach yn cynnwys "Crynodeb o Ymagweddau at Eiriolaeth Heb Gyfarwyddyd" newydd sy'n amlinellu'r ymagweddau Brîff Gwylio seiliedig ar Hawliau, Person- Ganolog, ac Arsylwi Tystion, ac yn nodi mai'r ymagwedd integredig yw'r un fwyaf effeithiol.

Mae'r tabl o Swyddogaeth Awdurdodau Lleol pan fo'n rhaid ystyried darparu eiriolaeth wedi cael ei symud o 50 i Atodiad 3.

Mae'r cyfeiriad at Ran 11 yn y gwreiddiol wedi cael ei gywiro i Ran 10, ond fe ddylai ddarllen "Cwynion, Cynrychioladau a Gwasanaethau Eiriolaeth" yn ogystal â chynnwys adrannau 171 a 172 o'r Ddeddf.

Yn 20, mae'r frawddeg "Bydd hyn yn cynnwys cymorth eiriolaeth i gael gafael ar y gwasanaeth ei hun' wedi cael ei dileu.

Yn 41, fe *ddylai* angen unigolion am eiriolaeth fod yn amlwg o'r cysylltiad cyntaf, tra bod hyn yn cael ei nodi fel *rhaid* yn y gwreiddiol.

Yn 43, dylid cyfeirio at Bennod 8, nid Atodiad 3. Yn 67, dylid cyfeirio at baragraff 47, nid 49. Yn 68, dylid cyfeirio at Bennod 8, nid Atodiad 3.

Mae 58 yn baragraff newydd sy'n amlinellu ambell enghraifft ychwanegol o'r rhwystrau y gallai pobl eu hwynebu. Mae 64-66 hefyd yn baragraffau newydd sy'n ymwneud ag anghydroddoldebau a'r iaith Gymraeg. Mae Atodiad 4 yn rhestru "Dyletswyddau eiriolaeth statudol eraill" yn y Ddeddf, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Addysg 1996, Deddf Cydraddoldeb 2010, a Deddf Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2006.

Mae 90 yn baragraff newydd sy'n cyfeirio at Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ond nid yw'n egluro bod hyn yn berthnasol i eiriolaeth plant a phobl ifanc yn unig ar hyn o bryd.

Mae Pennod 17 wedi cael ei haileirio i gadarnhau bod awdurdodau lleol yn cael eu hatal rhag codi tâl am wasanaethau eiriolaeth o dan y Ddeddf.

Mae yna newidiadau sylweddol i Bennod 19, "Gwasanaethau eiriolaeth presennol", gyda 96, 99 a 100 yn esbonio problemau posibl o ran dyblygu eiriolwyr pan allai gwahanol hawliau i eiriolaeth statudol orgyffwrdd.

At ei gilydd felly, ar wahân i'r newidiadau a amlinellir uchod, nid yw'r Cod diwygiedig yn wahanol iawn i'r Cod gwreiddiol.



Parhad...

## *Llinell Gyngor Am Ddim Age Cymru*

Gall llinell gyngor Age Cymru ddarparu cyngor diduedd am ddim i'ch etholwyr ar ystod o bynciau.

Efallai bod eisiau cyngor arnynt ynglŷn â faint y dylent fod yn ei dalu am ofal anwyliaid? Neu efallai bod arnynt eisiau gwybod a ydynt yn gymwys i gael Credyd Pensiwn ac eisiau cymorth i'w hawlio?

Gall Age Cymru helpu gyda'r materion hyn i gyd, a mwy – ffoniwch ni heddiw ar:

**08000 223 444**

**Cysylltu â ni…**

- **I danysgrifio i'r e-fwletin neu'r cylchlythyr**
- **Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr erthyglau**
- **Os oes unrhyw beth yr hoffech ei weld yn yr e-fwletin neu'r cylchlythyr nesaf**

**Ebost:** sue.vaarkamp@agecymru.org.uk

**Rhif ffôn y Rhaglen Edau Euraidd**
**01352 706228**

**Mae'r golygydd yn cadw'r hawl i newid erthyglau a gyflwynir i'w cyhoeddi. Nid yw'r safbwyntiau a geir yn y Cylchlythyr hwn o angenrheidrwydd yn rhai a rennir gan Age Cymru.**

**Derbynnir hysbysebion a mewnosodiadau gydag ewyllys da, ond nid yw hynny'n golygu bod y cynhyrchion a'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn cael eu cymeradwyo a'u hargymell gan Age Cymru.**

**Age Cymru,**
**Llawr Gwaelod,**
**Tŷ Mariners,**
**Llys Trident,**
**Heol East Moors,**
**Caerdydd, CF24 5TD**

**t: 029 2043 1555**

**e: enquires@agecymru.org.uk**
**www.agecymru.org.uk**

Rhif elusen gofrestredig: 1128436
Rhif cwmni cofrestredig: 6837284

© Age Cymru 2020

Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government